Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin y Trallwng

**Ysgol Gymraeg y Trallwng**
**Howell Drive**
**Welshpool**
**Powys**
**SY21 7AT**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ysgol Feithrin y Trallwng

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Ysgol Feithrin y Trallwng |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Plant Dyddiol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Jane Howells |
| Person â gofal | Jane Howells |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 16 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 08:30 – 15:15 Dydd Llun i Ddydd Iau (plant 3+ wedi’u hariannu)<br>9:00 – 11:30 Dydd Llun i Ddydd Gwener (plant 2+ wedi’u hariannu) |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolwg cyntaf ers ail gofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 26/11/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.**

## Argymhellion

A1 Cryfhau ymhellach y modd y mae ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth o arsylwadau er mwyn cynllunio ar gyfer datblygu medrau'r plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â defnydd o Makaton yn y lleoliad fel trydedd iaith i'w ledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae gan blant lais effeithiol iawn yn y lleoliad ac maent yn cael cyfleoedd arbennig i wneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol. Er enghraifft, gallant benderfynu yn annibynnol pa adnoddau i'w defnyddio a pha weithgareddau i ymgymryd â hwy. Mae bron pob plentyn yn hapus iawn, yn hyderus ac yn gyffrous wrth gyrraedd y lleoliad. Maent yn amlwg yn teimlo'n hollol gartrefol ac yn awyddus iawn i adael eu rhieni a'u gofalwyr er mwyn mwynhau'r profiadau arbennig caiff eu cyflwyno iddynt. Maent yn llwyddo i fynegi eu teimladau yn glir ar bob achlysur, yn ogystal â gwneud dewisiadau aeddfed iawn am ble a gyda beth y maent eisiau chwarae.

Mae'r plant yn gyfarwydd iawn ag arferion y dydd ac felly mae ganddynt ymdeimlad o ddiogelwch o fewn holl ardaloedd y lleoliad ac yng nghwmni'r ymarferwyr. Mae bron pob plentyn yn llwyddo yn effeithiol iawn i chwarae am gyfnodau estynedig. Maent yn sgwrsio yn arbennig o dda gyda'i gilydd ac yn chwerthin a mwynhau yng nghwmni eu ffrindiau. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu perthnasoedd agos, cynnes a chryf iawn ag ymarferwyr. Maent yn ymateb yn arbennig i'r ymarferwyr pan fyddant yn ymuno yn eu gweithgareddau a'u chwarae.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau rhannu eu llwyddiannau gydag ymarferwyr ynghyd â'u ffrindiau. Er enghraifft, mae'r plant ieuengaf yn llwyddo yn effeithiol iawn i siarad am adeiladu gan ddefnyddio ewyn eillio fel cement tra bod eraill yn sôn am gerbydau yn cael eu dal yn yr eira. Maent yn cydweithio ac yn rhannu'n eithriadol o dda gyda'i gilydd ac yn dangos empathi a medrau dychymyg yn hynod lwyddiannus.

Mae bron pob un ohonynt yn symud o gwmpas yn annibynnol ac yn dewis yr adnoddau y maent eisiau eu defnyddio. Er enghraifft, maent yn dewis yn aeddfed pa bryd maent awydd symud o un ardal i'r llall, neu am chwarae gyda gwahanol offer, deunyddiau a thegannau sydd ar gael iddynt.

Mae bron bob un o'r plant yn ffurfio perthynas effeithiol iawn â'i gilydd. Maent yn barod i gefnogi ei gilydd, er enghraifft, drwy gydweithio i adeiladu yn yr ewyn eillio, i rannu'r cwpanau adeg byrbryd ac wrth gyd-dacluso ar ddiwedd y gweithgareddau. Mae ganddynt berthynas arbennig gyda'r ymarferwyr sydd yn dangos parch a gofal arbennig tuag at y plant. Caiff y perthnasedd hyn effaith arbennig ar les plant. Mae'n amlwg o hyder y plant eu bod yn sicr y bydd yr holl ymarferwyr yn ymateb i'w hanghenion yn brydlon. Er bod gweithiwr allweddol gan bob plentyn, maent yn cyfathrebu gyda'r ymarferwr sydd agosaf atynt i gael cymorth os oes angen. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau cymdeithasol arbennig ac yn cydweithredu'n effeithiol iawn. Er enghraifft, wrth chwarae gyda'r offerynnau cerdd, maent yn rhannu gyda phlant eraill ac yn cymryd eu tro ac yn cydweithio i greu cerddoriaeth sy'n llawn bwrlwm a rhythm.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau annibynnol arbennig ac mae ganddynt yr hyder i wneud y gorau o'r cyfleoedd ardderchog sydd ar gael iddynt. Maent yn hyderus iawn wrth ddangos trefniadau dyddiol a'r ystod eang o brofiadau dysgu ar gael iddynt. Er enghraifft, mae plentyn yn rhannu mygiau diod o droli pwrpasol. Mae bron pob un o'r plant yn helpu eu hunain i gwpanau a phlatiau seramig ac yn gweini eu hunain amser byrbryd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad sgiliau cymdeithasol y plant.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd a chyfathrebu gan gynnwys y defnydd o iaith arwyddo. Mae bron pob un o'r plant yn hyderus i gyfathrebu gyda chyfoedion, ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau'r ymarferwyr yn aeddfed ac yn ymuno mewn rhigymau a chaneuon yn frwdfrydig. Mae bron pob un o'r plant yn siarad mewn brawddegau llawn ynghyd â defnyddio iaith arwyddion yn hyderus ac yn helaeth. Er enghraifft, maent yn siarad ac yn defnyddio iaith arwyddion wrth ofyn am ffrwythau adeg byrbryd. Mae bron pob un o'r plant yn dangos mwynhad mewn straeon ac yn edrych ar lyfrau yn annibynnol gan ddangos cymeriadau a thrafod digwyddiadau a lluniau'r stori. Maent yn gwrando ar stori yn aeddfed ac yn cynnig eu syniadau eu hunain yn fedrus. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio amrywiaeth o offer marcio yn dda. Er enghraifft, maent yn arbrofi a chreu marciau ar yr astell sialc i gynrychioli rhifau ac yn gwneud marciau yn y llyfr apwyntiadau yn y salon gwallt i nodi amser mae cwsmer yn cyrraedd y siop.

Mae bron pob un yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemateg. Maent yn rhifo yn naturiol yn arbennig o dda yn ystod eu chwarae gan rifo sawl pêl oedd yn rholio ar y cafnau ac yn glanio yn y teiar. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd destunau perthnasol. Er enghraifft, maent yn rhifo'r arian yn y til yn y siop trin gwallt, ac yn rhifo un i ddeg wrth guro'r drwm a chanu'r offerynnau cerddoriaeth yn yr ardal allanol. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau datrys problemau yn effeithiol iawn ac yn dyfalbarhau'n dda i gwblhau tasg. Er enghraifft,

maent yn trio dulliau gwahanol i osod y mat ioga ar y llawr a gosod yr elastig ar y mat ar ddiwedd y sesiwn.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio amrywiaeth o offer digidol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio synhwyrydd metel i chwilio am wrthrychau. Mae bron pob un o’r plant yn fedrus  wrth farcio ar y bwrdd rhyngweithiol gan ddewis lliwiau a dileu lluniau penodol. Maent yn datblygu medrau corfforol cadarn. Maent yn arddangos medrau cydbwyso cadarn, yn ôl eu gallu unigol,  gan aros fel fflamingo ar un goes. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau i ddatblygu eu medrau modur mân yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio morthwyl i daro hoelion yn y pren a throi sgriwdreifer i osod sgriw.

Mae bron pob un yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol. Maent yn hoff iawn o ganu yn ystod eu gweithgareddau ac wrth eu bodd yn defnyddio’r offer cerddorol tu allan i greu grŵp pop gyda’i gilydd.

Mae’r plant yn dangos lefel arbennig o barch at ei gilydd yn ystod eu gweithgareddau.  Er enghraifft, maent yn clapio a dweud da iawn ar ôl gwylio perfformiad yn y sioe bypedau. Mae bron pob un o’r plant yn hollol annibynnol wrth gyd chwarae gyda’u ffrindiau ac yn dangos dycnwch arbennig i gwblhau’r weithgaredd dan sylw.

**Gofal a datblygiad:  Rhagorol**

Mae’r arweinwyr yn gweithredu systemau a gweithdrefnau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth arbennig a chryf iawn o’u cyfrifoldebau ac yn llwyddo i sicrhau cyfleoedd arbennig i blant ddatblygu yn ôl eu gallu a’u hoedran. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo arferion penigamp i sicrhau bod plant yn aros yn iach. Er enghraifft, maent yn darparu byrbryd maethlon yn y bore ac yn atgoffa plant i olchi eu dwylo’n rheolaidd. Maent yn atgoffa’r plant i ystyried sut i gadw’n ddiogel yn ystod eu gweithgareddau ond heb leihau’r cyfle i gymryd risgiau priodol yn eu chwarae tra’n mwynhau eu profiadau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod pwyslais cryf iawn yn cael ei rhoi i ddiogelu, ac maent yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn arbennig. Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o brosesau diogelu plant ac yn ymwybodol o’r gweithdrefnau i’w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon. O ganlyniad, mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn achosi pryder. Maent yn sicrhau eu bod yn cadw cofnodion ar gyfer diogelu yn ogystal ag adroddiadau am ddamweiniau a digwyddiadau yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion plant ac yn cefnogi eu preifatrwydd a’u hurddas bob amser.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn fodelau rôl arbennig i’r plant. O ganlyniad, maent yn rheoli bron pob rhyngweithiad rhyngddynt â’r plant yn effeithiol iawn. Mae’r ymarferwyr  yn sgwrsio yn dawel a chadarnhaol ac yn eu hannog, eu herio, a’u canmol yn rheolaidd am eu hymdrechion a’u cyflawniadau. Er enghraifft, drwy ofyn cwestiynau i ymestyn eu synhwyrau, eu teimladau a'u dychymyg yn ystod gweithgareddau ac yn yr ardal allanol yn canmol plant am gasglu towel i sychu’r cadeiriau gwlyb. O ganlyniad i’r teimlad cartrefol, mae’r plant yn hapus ac wedi ymlacio. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant i ddatblygu cyfeillgarwch agos, ac i reoli eu teimladau. Maent yn atgoffa’r plant yn effeithiol am garedigrwydd a pharch.

Mae hiwmor yn disgleirio yn y lleoliad hefyd gydag ymarferwyr a phlant yn chwerthin yn rheolaidd. Oherwydd bod y plant wedi eu trwytho yn helaeth yn nhrefn y diwrnod, mae bron pob un yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Mae hyn yn magu hyder plant ac yn datblygu ymdeimlad o berthyn a diogelwch. Mae ymarferwyr yn atgoffa'r plant am bwysigrwydd rhannu adnoddau ac yn eu canmol am ymddygiad cadarnhaol. O ganlyniad, mae plant yn cydweithredu ac yn gwrando'n dda ar eraill.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth helaeth am sut i ddiwallu anghenion unigol plant. Maent yn arsylwi ar y plant yn rheolaidd gan sicrhau fod bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da. Mae ymarferwyr yn annog chwilfrydedd y plant yn effeithiol iawn ac yn eu galluogi i gael amrywiaeth dda o gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau Cymraeg plant. Maent yn defnyddio'r Gymraeg trwy gydol y sesiwn wrth i blant chwarae a sgwrsio yn y Gymraeg yn naturiol. Mae ymarferwyr yn trafod cyflawniadau plant gyda'i gilydd yn dilyn asesiadau o'u cynnydd. Mae ganddynt weithdrefnau effeithiol i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol i gefnogi deilliannau cadarnhaol ar gyfer plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn brofiadol ac yn cymryd diddordeb effeithiol yn yr hyn mae pob plentyn yn gwneud, sydd yn ysbrydoli'r plant i ddysgu. Maent wedi llwyddo i greu ardaloedd deniadol gan ddefnyddio deunyddiau helaeth, gan gynnwys adnoddau naturiol, i ddenu'r plant i ymgolli'n llwyr yn eu gweithgareddau. Er enghraifft, maent wedi gosod llysiau bach go iawn ynghyd a bocsys grawnfwyd a glanhau yn y tŷ bach twt. Maent hefyd yn fframio lluniau o'r plant â'r ymarferwyr sydd yn creu ymdeimlad cartrefol ar gyfer y plant.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant yn fedrus trwy gydol eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn rhoi esboniad a chyfarwyddiadau eglur i'r plant gan ddefnyddio brawddegau Cymraeg graenus yn ogystal ag iaith arwyddo. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o bryd i ymyrryd yn y chwarae a phryd i gamu'n ôl ac arsylwi. Er enghraifft, maent yn llawn bwrlwm wrth annog y plant i ganu wrth greu sioe bypedau gyffrous, neu wrth arbrofi gyda'r ewin eillio.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl effeithiol iawn ar gyfer y plant ac yn eu cefnogi'n llwyddiannus i ddatblygu eu medrau. Maent yn magu ymwybyddiaeth y plant o gynefin Cymru a'r byd ehangach yn effeithiol trwy greu map sy'n dangos ble mae pawb yn byw yn yr ardal. Maent yn ymestyn gwybodaeth y plant o'r byd ehangach yn fuddiol gan gynnig profiadau o ddiwylliannau eraill. Er enghraifft, roedd un o'r ymarferwyr wedi ymweld â Siapan gan dynnu llun un o deganau cyfarwydd y cylch mewn mannau arbennig ar ei thaith. Defnyddiwyd hyn fel cyfle i drafod y wlad a'i harferion. Maent hefyd yn mwynhau cyflwyno geiriau o'r iaith frodorol gyda'r plant.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad plant a phwysigrwydd caniatáu plentyn i ail ymweld â gweithgaredd neu chwarae gyda'r un offer am gyfnodau estynedig. Maent yn annog chwilfrydedd y plant ac wedi llwyddo i greu amgylchedd sy'n rhoi cyfle i blant fedru gwneud dewisiadau yn annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn adolygu, ynghyd â myfyrio ar eu gwaith ag ar ddatblygiad y plant yn gyson. O ganlyniad i arsylwi ar y plant yn chwarae, defnyddiant y wybodaeth yn briodol i adnabod y camau nesaf wrth ddatblygu eu medrau. Trwy gynllunio yn y modd yma mae'r ymarferwyr yn dilyn diddordebau'r plant yn dda. Er enghraifft, yn dilyn trafodaeth gyda'r plant am eu hymweliad â'r sw, a darganfod fod ganddynt ddiddordeb gwirioneddol mewn bywyd gwyllt, crëwyd ardal chwarae gydag amrediad o anifeiliaid o bob math.

Mae'r profiadau dysgu a'r gweithgareddau amrywiol yn sbarduno dychymyg y plant yn llwyddiannus. Anogir y plant i feddwl drostynt eu hunain, gyda'r ymarferwyr yn holi cwestiynau sydd wedi eu cynllunio i herio'r plant i feddwl a datblygu eu syniadau eu hunain.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd dysgu sy'n gyfoethog iawn ar gyfer plant. Maent yn sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr a heriol i'r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau, yn enwedig eu hannibyniaeth a'u medrau datrys problemau. Mae ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu yn effeithiol i gynnig cyfleoedd arbennig i blant i ymchwilio ac i fwynhau'r profiadau ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn darparu ardaloedd ymchwilio sy'n cynnwys offer adeiladu megis morthwylion a hoelion, ardaloedd i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, ynghyd ag ardaloedd arbrofi mewn dŵr a thywod. Maent yn darparu amgylchedd cynnes a chyfeillgar ar gyfer y plant, sy'n sicrhau croeso ac ymdeimlad cartrefol. Maent yn hyrwyddo llwyddiannau plant trwy arddangos eu gwaith yn helaeth o fewn yr ystafelloedd. Mae'r arddangosfeydd yn cynnwys lluniau a gwaith celf ynghyd â lluniau o'r plant gyda'i teuluoedd. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad cryf o falchder, perchnogaeth a pherthyn i'r plant.

Mae gan arweinwyr gamau effeithiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda. Mae safonau'r ardal fewnol ac allanol o ansawdd uchel. Maent yn sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi ac na chaiff unrhyw ymwelydd fynediad i'r lleoliad neu'r ardal awyr agored heb ganiatâd. Maent yn cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr sy'n sicrhau pob ardal ac agwedd o'r lleoliad. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddiogel ac maent yn dilyn ystod effeithiol iawn o bolisïau sy'n glir ac yn gynhwysfawr. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd o dan reolaeth yr ysgol gynradd ar y safle fel bod plant a staff yn dod yn gyfarwydd â llwybrau a gweithdrefnau ar gyfer gadael mewn argyfwng. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol iawn yn ystod y dydd ac o ganlyniad, mae'r plant yn deall ac yn dilyn y drefn ddisgwyliedig.

Mae'r dodrefn, offer ac adnoddau yn arbennig ar gyfer oedran y plant. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod nhw o ansawdd uchel ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda iawn. Mae ymarferwyr yn storio'r holl adnoddau ar lefelu priodol i'w hoedran sydd yn eu galluogi i'w hestyn yn annibynnol. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau cynaliadwy. Mae'r cyfleoedd i ailgylchu yn codi'n naturiol yn ystod amser byrbryd a gweithgareddau dyddiol. Er enghraifft, maent yn annog plant i osod y gwastraff bwyd mewn bin addas neu ddefnyddio offer wedi eu hailgylchu. Mae arweinwyr yn sicrhau bod digon o le ar gyfer nifer y plant a bod toiledau addas a chyfleusterau priodol ar gyfer golchi a sychu dwylo. Mae'r cyfleusterau hyn yn darparu cyfleoedd da i blant fod yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd eithriadol o dda yn yr ardal allanol sy'n rhoi profiadau rhagorol i blant ddysgu, chwarae ac ymlacio. Mae'r amgylchedd hyn yn ymestyniad yr ardal fewnol, ac wedi'i gynllunio'n greadigol iawn. Mae'n galluogi plant i ddatblygu eu dychymyg, eu gallu creadigol ac yn gorfforol. Mae plant yn archwilio'r ystod eang o ardaloedd sydd ar gael iddynt yn hyderus. Er enghraifft, maent yn mwynhau archwilio gweithgareddau chwarae amrywiol megis yr ewyn eillio. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn sesiynau cerddoriaeth yn yr ardal allanol ac maent yn awyddus iawn i rannu eu cyfansoddiadau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn rhoi gofal a llesiant y plant wrth wraidd popeth a wnânt. Maent yn angerddol ac yn weithgar iawn. Mae'r tîm yn brofiadol ac mae ganddynt weledigaeth cwbl glir ar gyfer darpariaeth o'r safon uchaf ar gyfer y plant yn eu gofal. Maent yn sicrhau bod popeth yn ei le i'r ymarferwyr ac yn eu hannog i ofyn am gymorth pan bod angen. Maent wedi creu diwylliant cyfeillgar a gofalgar yn y lleoliad. Mae bron pob plentyn yn eiddgar iawn i ddod drwy'r drysau yn y bore ac yn hapus iawn yn gadael eu rhieni. Mae ymdeimlad cryf o berchnogaeth yn treiddio drwy'r lleoliad. O ganlyniad, mae'r plant, ymarferwyr, rhieni i gyd yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu proses hunan arfarnu effeithiol sy'n  cynnwys mewnbwn gan pob rhanddeiliad, gan gynnwys y plant. O ganlyniad, mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad a'r camau sydd angen i wella. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i ddatblygu'r modd y maent yn defnyddio gwybodaeth o'u arsylwadau er mwyn cynllunio ar gyfer datblygu medrau'r plant.

Maent yn gwerthuso'r ardaloedd chwarae yn fanwl ac effeithiol gan ystyried unrhyw addasiadau angenrheidiol. Maent bob amser yn talu sylw i ddiddordebau'r plant ac yn ystyried yr effaith y bydd addasu'r ddarpariaeth yn ei gael ar ddatblygiad medrau a lles y plant yn eu gofal.  Maent yn creu cynllun gwella gyda thargedau synhwyrol a chyraeddadwy a meini prawf penodol er mwyn mesur cynnydd. Defnyddiant arian grant yn effeithlon er mwyn hyrwyddo a chyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, maent wedi archebu amrywiaeth eang o lyfrau i'w gosod yn ardaloedd y ddarpariaeth. Maent yn annog y plant i fynd a llyfrau stori neu lyfrau ffeithiol o'u diddordeb adref dros nos, er mwyn mwynhau llyfrau gyda'u rhieni. Mae hyn yn annog y plant i fwynhau llyfrau o oedran cynnar yn llwyddiannus dros ben. Maent yn datblygu chwilfrydedd a chariad tuag at lyfrau ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar eu medrau llythrennedd cynnar.

Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel wrth benodi ymarferwyr newydd ac mae ganddynt brosesau cadarn ar gyfer sefydlu staff newydd. Mae'r arweinwyr yn angerddol am ddarparu profiadau dysgu proffesiynol gwerthfawr i'r ymarferwyr ac yn eu hannog i fynychu hyfforddiant rheolaidd a buddiol. Er enghraifft, maent wedi gwerthuso effaith cyflwyno iaith arwyddo ac effaith hynny ar hyder a medrau cyfathrebu ehangach y plant.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gref gyda'r rhieni a gofalwyr ac maent yn rhan annatod o daith ddysgu'r plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y rhieni wybodaeth gyfredol am ddatblygiad y plant ac maent yn rhannu llyfr cyswllt yn rheolaidd gyda rhieni. Mae ganddynt bolisi drws agored sy'n hwyluso trafodaeth ddyddiol gyda rhieni a gofalwyr.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/01/2025